

Rhif cyfeirnod: UHB 462  
Rhif y Fersiwn: 2

Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Cyfeirnod blaenorol yr Ymddiriedolaeth/BILL:

## Polisi Corfforaethol y Gymraeg

### Datganiad polisi

Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei nodau a'i gyfrifoldeb ar Bolisi'r Gymraeg, rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg fel eu dewis iaith gyda ni. Bydd staff hefyd yn gallu defnyddio'r Gymraeg fel eu dewis iaith pan fo hynny'n berthnasol yn unol â'r Safonau.

Darparu gwasanaethau iechyd o'r radd flaenaf i boblogaeth Caerdydd a'r Fro yw prif swyddogaeth y sefydliad hwn, ond yn debyg i bob sefydliad sy'n darparu gofal iechyd, mae ystod o reoliadau y mae'n rhaid inni weithredu oddi tanynt, ac nid yn unig y rheoliadau hynny sy'n ymdrin yn uniongyrchol â materion iechyd.

Er y gall ein hadrannau unigol arbenigo mewn agweddau ar ofal clinigol er enghraifft, a gweithredu o dan ganllawiau llym yn y meysydd arbenigol hynny, yn gorfforaethol rhaid i'r sefydliad hefyd gydymffurfio â materion megis Iechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb neu Reoliadau Cyflogaeth.

Nid yw cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn wahanol, ac mae peidio â chydymffurfio yn cyflwyno'r un risg sefydliadol â methiant i gydymffurfio ag unrhyw ddyletswyddau eraill a osodir ar ein Bwrdd Iechyd Prifysgol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cefnogi ein cleifion a defnyddwyr gwasanaethau sydd angen darpariaeth Gymraeg wrth drafod eu gofal iechyd. Rydym hefyd yn cydnabod pa mor bwysig ydyw i staff allu defnyddio'r Gymraeg fel eu dewis iaith pan fydd hynny'n berthnasol, a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddarparu'r profiad gorau i'n cleifion yn eu dewis iaith. Mae tystiolaeth ymchwil ar ddewis iaith cleifion wedi dangos y canlyniadau cadarnhaol i gleifion pan fyddant yn gallu defnyddio eu dewis iaith, gan gynnwys gwell cyfathrebu rhwng cleifion a staff a gostyngiad mewn gofidiau a phryderon.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydyw i staff allu defnyddio'r Gymraeg fel eu dewis iaith pan fydd hynny'n berthnasol, a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Rydym hefyd yn cydnabod dyletswydd y BIP i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (2011) a chynnydd a chefnogaeth ar Fframwaith Strategol y Gymraeg mewn Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru (Strategaeth Mwy na Geiriau).

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

*(Nodyn: Ysgrifennwch y datganiad polisi yn y person cyntaf ac esboniwch yn union beth mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i'w wneud.)*

### Ymrwymiad Polisi

Bydd y polisi yn galluogi pob gwasanaeth/tîm o fewn BIPCAF i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a nodir yn Safonau'r Gymraeg, fel y'i cymhwysir gan fyrddau Iechyd o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018

### Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig

Mae'r Polisi hwn yn disgrifio'r canlynol o ran sicrhau gofal gan ddefnyddio'r Gymraeg fel dewis iaith.

#### Ymhlith y dogfennau ategol eraill mae:

1. Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfer BIP Caerdydd a'r Fro
2. Fframwaith Strategol Mwy Na Geiriau

### Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob un o'n staff ym mhob lleoliad gan gynnwys y rhai â chontractau anrhydeddus ac mae ganddo gysylltiadau â gwaith partneriaeth a chontractwyr trydydd parti.

#### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd wedi'i gwblhau a chanfuwyd bod hyn yn gadarnhaol.

<b>Polisi wedi ei gymeradwyo gan</b>	Pwyllgor Strategaeth a Chyflenwi
<b>Grŵp sydd ag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau a ysgrifennwyd i egluro sut y caiff y polisi hwn ei weithredu</b>	Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg
<b>Swyddog Gweithredol neu Gyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Atebol</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant
<u>Ymwadiad</u>	
<b>Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych</b>	

Rhif cyfeirnod:

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025

Rhif y Fersiwn

Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

**chi'n ei defnyddio yw'r un ddiweddaraf, naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r Gyfarwyddi Llywodraethu.**

<b>Crynodeb o adolygiadau/gwelliannau</b>			
<b>Rhif y Fersiwn</b>	<b>Dyddiad Cymeradwyo'r Adolygiad</b>	<b>Dyddiad Cyhoeddi</b>	<b>Crynodeb o'r Gwelliannau</b>
1	Dyddiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd/Pwyllgor/Is-bwyllgor dd/mm/yyyy	I'w gadarnhau  [I'w fewnosod gan Adran y Llywodraeth]	<i>Polisi Newydd</i>
2			

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

## Tabl Cynnwys

1. Scope .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
1.1 Employees .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
1.2 Primary Care Contractors.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
1.3 Others.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
2. Legislative and NHS Requirements .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
2.1 Welsh Language (Wales) Measure 2011 .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
2.2 The Active Offer .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
2.3 The Well-Being of Future Generations (Wales) Act 2015.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<b>defined.</b>	
3 Implementation .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.1 Written Communication .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.2 Telephone Communication .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.3 Reception Areas .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.4 Face-to-Face Meetings Organised by CAVUHB	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.5 Clinical Consultations .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.6 Documents, Publications and Forms.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.7 Websites, Social Media Accounts and Apps ....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.8 Signage .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.9 Third Party Contracts and Tendering .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.10 Policy Development.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.11 Recruitment and Staffing.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.12 Training and Development .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.13 The Intranet .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.14 Complaints .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.15 Partnership Working.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.16 Promoting the Welsh Language .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.17 Record Keeping.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3.18 Annual Reporting.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
4. Reviewing and Monitoring .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
4.1 Managerial Responsibilities .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
4.2 Retention/Archiving .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
4.3 Non-compliance .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

## 1. Cwmpas

### 1.1 Gweithwyr

Bydd y Strategaeth hon yn berthnasol i bob gweithiwr a gweithiwr banc BIPCAF.

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

## 1.2 Contractwyr gofal sylfaenol

Mae contractwyr gofal sylfaenol (h.y. meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr) yn gontractwyr annibynnol, hunan-gyflogedig ac nid ydynt yn gyflogedig gan BIPCAF fel arfer; fodd bynnag, rhaid i gontractwyr gofal sylfaenol ddilyn egwyddorion a gofynion deddfwriaeth a pholisïau o dan Fesur y Gymraeg 2011 i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog. Mewn perthynas â'r Strategaeth hon, bydd BIPCAF yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad i gontractwyr gofal sylfaenol.

## 1.3 Eraill

Bydd angen i drydydd partion dan gontract (gan gynnwys staff asiantaethau), myfyrwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr dan hyfforddiant, unigolion ar leoliadau gwaith, staff o sefydliadau eraill sy'n gweithio ar bob safle ac unigolion dan gontract uniongyrchol gyda BIPCAF, gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y strategaeth hon wrth weithio ar safleoedd BIPCAF.

Bydd angen i Dîm y Gymraeg roi sicrwydd i'r rheolwyr perthnasol fod y grŵp hwn o unigolion wedi cael hyfforddiant digonol i safon foddhaol, yn dibynnu ar eu rôl ac ar asesiad risg.

## 2. Gofynion deddfwriaethol a gofynion y GIG

### 2.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae'r Safonau'n gosod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, ystyried yr iaith wrth lunio polisïau, annog y defnydd o'r iaith yn y gweithle, hyrwyddo'r iaith, a chadw cofnodion am sut maent yn cyflawni eu dyletswyddau.

Cafodd hyn ei ddeddfu ar gyfer Byrddau Iechyd drwy Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018, ac mae'r rheini sy'n berthnasol i BIPCAF i'w gweld yn ein Hysbysiad Cydymffurfio, sydd ar ein tudalen we y Gymraeg mewn Gofal Iechyd yma.

### 2.2 Y Cynnig Rhagweithiol

Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n darparu gwasanaethau gofal i bobl a'u teuluoedd ledled Cymru i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

### 2.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn datgan y dylid rhoi sylw dyledus i'r Gymraeg wrth osod a chyflawni amcanion lles, er mwyn adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a'r nod cenedlaethol o wlad "lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

Lle nodir bod rhai amcanion yn flaenoriaethau, e.e. hyrwyddo neu ddiogelu'r iaith, neu sicrhau darpariaeth ddwyieithog ddigonol mewn gwasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol, dylid ystyried y rhain wrth osod amcanion lles.

Mae'r saith Nod Llesiant hefyd yn cynnwys Cymru Iachach, ac mae'r Gymraeg yn rhan o'r nod hwn hefyd, a phob un o'r lleill. Roedd dogfen ganllaw Comisiynydd y Gymraeg 2018 ar Strategaethau Hyrwyddo er enghraifft yn cynnwys ffeithlun olwyn wedi'i addasu yn dangos sut mae'r Gymraeg yn rhan o bob un o'r saith Nod.



Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

### 3 Gweithredu

Gan adlewyrchu'r meysydd a nodwyd yn Safonau'r Gymraeg, bydd BIPCAF yn canolbwyntio ar bum prif faes:

Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1-68).  
Llunio Polisi (Safonau 69-78).  
Safonau Gweithredu (Safonau 79-114).  
Cadw Cofnodion (Safonau 115-117).  
Safonau Atodol (Safonau 118-121).

#### 3.1 Cyfathrebu ysgrifenedig

Mae hawl gan y cyhoedd i gyfathrebu â BIPCAF yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd BIPCAF yn cael gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg gan aelod o'r cyhoedd, bydd BIPCAF yn ymateb yn Gymraeg, oni bai bod y gohebydd wedi nodi fel arall.

Os bydd unigolyn yn cysylltu â BIPCAF am y tro cyntaf, drwy e-bost, bydd y staff yn cynnwys llofnod e-bost sy'n holi ynglŷn â dewis iaith yr unigolyn, ac yn defnyddio'r wybodaeth a ddaw i law i gyfathrebu o'r adeg honno ymlaen yn newis iaith yr unigolyn hwnnw.

Bydd penawdau llythyrau, llofnodion e-bost ac unrhyw hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog yn unol â'r Safonau perthnasol.

#### 3.2 Cyfathrebu dros y ffôn

Bydd y staff sy'n ateb y ffôn ar brif linell, e.e. y llinell ffôn a hysbysebir yn allanol, yn ateb y ffôn yn ddwyieithog bob tro.

Os bydd y galwr yn gofyn am wasanaeth Cymraeg, bydd y staff yn gwneud pob ymdrech i drosglwyddo'r alwad honno i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg.

Os na all gyfathrebu yn Gymraeg, bydd yn dweud wrth y galwr y caiff ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu i barhau â'r alwad (yn y ganolfan alwadau y tu allan i oriau) neu barhau â'r alwad yn Saesneg os bydd angen trafod mater penodol.

Pan fydd BIPCAF yn hysbysebu rhifau ffôn, bydd yn hysbysebu'r llinellau Cymraeg a Saesneg sydd ar gael ac yn darparu'r wybodaeth hon wrth hysbysebu.

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

Pan ddaw galwadau at linellau uniongyrchol BIPCAF, eto, bydd y staff yn ateb y ffôn yn ddwyieithog drwy gyfarch y galwr, ac yn dilyn yr un protocol â nodwyd ar gyfer prif linellau ffôn.

Bydd y staff yn cael eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, ni waeth beth yw eu lefel neu allu, er mwyn darparu gwasanaeth i'r galwr yn ei ddewis iaith.

Os bydd gan y staff wasanaeth peiriant ateb, yna bydd y neges yn ddwyieithog a bydd y staff yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r broses er mwyn recordio neges ddwyieithog gan ddefnyddio canllaw mewnol.

Bydd y staff sy'n cyfathrebu ag unigolyn am y tro cyntaf yn holi p'un a yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn galwadau/gohebiaeth yn y dyfodol ai peidio. Bydd cofnod o'r dymuniad hwnnw yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i lywio'r dewis iaith mewn galwadau/gohebiaeth â'r unigolyn hwnnw yn y dyfodol.

### 3.3 Derbynfeydd

Bydd staff Cymraeg yn dangos eu bod yn Gymraeg eu hiaith trwy wisgo cortyn gwddf neu fathodyn pin sy'n nodi hynny. Bydd staff sy'n dysgu'r Gymraeg hefyd yn dangos hynny, er mwyn cefnogi cleifion sydd angen gwasanaeth Cymraeg.

Bydd staff sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn cynorthwyo cleifion sydd angen gwasanaeth Cymraeg, ac os na fydd aelod o staff Cymraeg ei iaith ar gael, bydd y claf yn cael gwybod bod modd defnyddio "Language Line", sef gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Mae gwybodaeth am "Language Line" ar gael i staff mewn canllaw i staff.

Bydd arwydd ym ymhob derbynfa yn nodi bod croeso i gleifion ac ymwelwyr, eu teuluoedd a staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.

### 3.4 Cyfarfodydd Wyneb yn Wyneb a drefnir gan BIPCAF

Pan fydd mwy nag un unigolyn yn cael eu gwahodd i gyfarfod, bydd y staff yn holi pob unigolyn p'un a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu yn y cyfarfod ai peidio. Os bydd o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r unigolion a wahoddir yn



Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

hysbysu trefnwr y cyfarfod eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, bydd trefnwr y cyfarfod yn trefnu gwasanaethau cyfieithu.

Bydd BIPCAF yn hysbysebu digwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog a bydd holl ddeunyddiau'r digwyddiad ar gael yn ddwyieithog.

Cyn digwyddiadau cyhoeddus, bydd gofyn i'r mynychwyr nodi eu dewis iaith a'u hanghenion cyfathrebu, a bydd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn cael eu trefnu os bydd angen.

Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfathrebu ynglŷn â digwyddiadau cyhoeddus.

Os bydd BIPCAF yn cyllido o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, bydd yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd y siaradwyr yn y digwyddiad cyhoeddus yn cael eu holi a ydynt yn dymuno cyflwyno yn Gymraeg, ac os felly, bydd y staff yn sicrhau bod hyn yn bosibl, a bydd gwasanaethau cyfieithu ar gyfer y mynychwyr yn cael eu trefnu.

### 3.5 Ymgynghoriadau Clinigol

Bydd BIPCAF yn cyhoeddi cynllun bob cyfnod o 5 mlynedd, yn nodi i ba raddau y gallwn gynnal ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg.

Bydd y cynllun hwn yn manylu ar y camau y mae BIPCAF yn bwriadu eu cymryd er mwyn gwella ar ei allu i gynnig y gwasanaeth hwn, ac amserlen ar gyfer y camau hyn.

Byddwn yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o lwyddiant y cynllun hwn, dair blynedd ar ôl ei ddatblygu.

### 3.6 Dogfennau, Cyhoeddiadau a Ffurflenni

Bydd holl ddogfennau a chyhoeddiadau BIPCAF sydd ar gael i'r cyhoedd, a phob ffurflen sydd i'w llenwi gan unigolyn (e.e. ffurflen ganiatâd ar gyfer triniaeth) neu sydd ar gael i un neu fwy o unigolion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran eglurder na maint, ac ni fydd BIPCAF yn gwahaniaethu rhwng y fersiwn Gymraeg a Saesneg mewn perthynas ag unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ddogfen neu'r ffurflen, e.e. terfyn amser ar gyfer cyflwyno ffurflen neu amserlen ar gyfer ymateb.

Bydd pob hysbysiad mewn manau cyhoeddus yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog, neu lle bo angen gellir creu fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân, ond mewn achosion o'r fath bydd y ddwy fersiwn yn cael eu harddangos gyda'r un amlygrwydd ac ar yr un pryd.

### 3.7 Gwefannau, y Cyfryngau Cymdeithasol ac Apiau

Bydd gwefan BIPCAF ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd ar gael yr un mor rhwydd i'r defnyddiwr yn y ddwy iaith. Ni fydd gwefan BIPCAF yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd cyfrifon y sefydliad ar y cyfryngau cymdeithasol ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg, ac os gofynnir cwestiwn yn y Gymraeg, yn y Gymraeg y bydd yr ymateb.

Bydd pob ap gan BIPCAF yn gweithio'n llawn yn y Gymraeg ac yn Saesneg (ar wahân i apiau clinigol at ddefnydd staff).

### 3.8 Arwyddion

Bydd pob arwydd newydd a godir (o Fai 2019 ymlaen), gan gynnwys arwyddion neu hysbysiadau dros dro, yn cyfleu'r un wybodaeth yn y Gymraeg ag ydynt yn Saesneg. Bydd testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau yn gywir o ran ystyr a mynegiant ac wedi'i osod uwchben, neu i'r chwith, o'r testun Saesneg, fel sy'n ofynnol gan y Safon berthnasol.

### 3.9 Contractau Trydydd Parti a Thendro

Pan fydd gwahoddiad i dendro yn cael ei gyhoeddi, bydd BIPCAF yn datgan bod modd cyflwyno tendrau yn y Gymraeg. Os bydd tendr Cymraeg yn cael ei gyflwyno, ni fydd yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg, e.e. o ran y dyddiad cau i dderbyn tendrau a hysbysu pobl am ein penderfyniad.

Rhaid i dendrau ar gyfer contractau trydydd parti gynnwys adran yn hysbysu'r cynigwyr o'r gofynion i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, pan fo hynny'n ystyriaeth

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

berthnasol yn y gwasanaethau sydd i'w darparu (gallai hyn amrywio o arwyddion fel rhan o waith mewn ysbyty i wasanaethau dwyieithog wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd).

### 3.10 Datblygu Polisiâu

Bydd unrhyw bolisi newydd sy'n cael ei lunio, ei adolygu neu ei ddiwygio gan BIPCAF yn ystyried effeithiau'r polisi hwnnw ar:

gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a;  
peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pan fydd BIPCAF yn cyhoeddi dogfen ymgynghori yn ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd BIPCAF yn ceisio barn ar a) a b) uchod ac yn ystyried y barnau hynny, a bydd hefyd yn ystyried sut y gellir llunio neu adolygu'r polisi fel na fyddai'n effeithio'n negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn yn rhan o'r broses o lunio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Pan fydd ymchwil yn cael ei chomisiynu neu ei chynnal er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio polisi, bydd BIPCAF yn sicrhau bod yr ymchwil honno'n ystyried sut y gallai'r polisi hwnnw effeithio mewn modd cadarnhaol ar a) a b) uchod.

Bydd yr asesiad effaith yn cyd-fynd ag unrhyw adroddiadau penderfyniad a chymeradwyo i'r Bwrdd.

### 3.11 Recriwtio a Staffio

Bydd holl ddogfennau BIPCAF sy'n ymwneud â materion recriwtio a staffio (polisiâu bwrdd iechyd, ffurflenni cais, canllawiau gweithle ac ati) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd BIPCAF yn nodi ar ei ohebiaeth fewnol â staff y bydd BIPCAF yn darparu gohebiaeth bapur â nhw am eu cyflogaeth yn y Gymraeg, os ydynt yn dymuno hynny.

Mae cyfieithiadau o lofnodion e-bost a negeseuon 'allan o'r swyddfa' yn cael eu darparu yn rhan o ganllawiau ysgrifenedig i gefnogi staff i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

Anogir staff i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu Ddysgwyr Cymraeg a rhoddir dull adnabod iddynt, naill ai gan ddefnyddio cortyn gwddf neu fathodyn, er mwyn cefnogi cleifion a chynrychiolwyr.

Bydd pob swydd yn cael ei hasesu ar gyfer ei gofynion sgiliau Cymraeg a'i hysbysebu yn unol â hynny. Os bydd swydd yn cael ei chynnig i unigolyn, bydd BIPCAF yn gofyn i'r ymgeisydd a hoffai dderbyn ei gontract cyflogaeth yn y Gymraeg. Os felly, bydd BIPCAF yn rhoi contract Cymraeg i'r ymgeisydd.

Gan ddefnyddio Strategaeth Sgiliau Dwyieithog BIPCAF bydd staff yn asesu gofynion iaith swyddi newydd ac yn categoreiddio swyddi fel a ganlyn:

Sgiliau Cymraeg yn hanfodol  
Sgiliau Cymraeg yn ddymunol  
Dim angen Sgiliau Cymraeg

Lle nodir bod Sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, bydd BIPCAF yn nodi hynny yn rhan o'r hysbyseb swydd. Bydd swyddi'n cael eu hysbysebu yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, a bydd ateb yn cael ei roi yn y Gymraeg os bydd cais yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg. Bydd ceisiadau am swyddi yn nodi'n glir y caiff ymgeisydd gynnal ei gyfweiliad yn Gymraeg os yw'n dymuno gwneud hynny.

Ni fydd ffurflenni cais Cymraeg a deunyddiau eraill yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw fersiynau Saesneg o'r dogfennau hynny.

Caiff staff sydd am wneud cwyn wneud hynny yn y Gymraeg. Pe bai cwyn yn cael ei gwneud yn y Gymraeg, yna bydd yr ymateb iddi yn y Gymraeg hefyd.

Bydd dogfennau BIPCAF am y gweithdrefnau ynghylch cwynion a disgyblaeth yn datgan y caiff aelod Cymraeg o staff wneud cwyn neu gael cyfarfod disgyblaeth yn y Gymraeg. Os bydd angen cyfarfod ag aelod o staff mewn perthynas â chwyn, bydd BIPCAF yn rhoi gwybod i'r unigolyn bod gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i'r cyfarfod hwnnw gael ei gynnal yn y Gymraeg. Bydd BIPCAF yn gwneud hynny trwy ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd os nad oes aelod o staff Cymraeg ei iaith ar gael, neu os nad yw'r aelod Cymraeg ei iaith â'r sgiliau i ddelio â'r gŵyn.

### 3.12 Hyfforddiant a Datblygu

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

Mae sgiliau Cymraeg y staff yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r lefelau cymhwysedd yn ESR, ac mae modd diweddarw gwybodaeth am y sgiliau hyn yn dilyn hyfforddiant a datblygiad staff.

Bydd cyfleoedd i staff dderbyn hyfforddiant yn y Gymraeg yn ystod oriau gwaith yn cael eu darparu ar-lein neu mewn ystafell ddosbarth.

Mae staff yn cael cyfleoedd i dderbyn sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel rhan o'r rhaglen Sefydlu Corfforaethol, sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg.

Mae'r hyfforddiant hwn ar gael i gontractwyr gofal sylfaenol a staff mewnlol hefyd, ac mae modd ei drefnu trwy'r Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg.

### 3.13 Y Fewnrwyd

Bydd BIPCAF yn darparu tudalen arbennig ar y fewnrwyd i staff er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd ohoni. Bydd hyn yn cynnwys mynediad i gyfleoedd hyfforddi, canllawiau ar sut i drefnu cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd, a sut i gael adnoddau megis meddalwedd Cymraeg neu gortynnau gwddf a bathodynau i adnabod aelodau staff fel siaradwyr Cymraeg.

Bydd tudalen hafan mewnrwyd BIPCAF ar gael yn y Gymraeg, a bydd tudalennau am y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol hefyd ar gael yn y Gymraeg.

Os bydd angen ar aelod o staff Cymraeg ei iaith y feddalwedd sy'n gwirio sillafu a gramadeg yn y Gymraeg, bydd modd ei lawrlwytho o'r dudalen ar y fewnrwyd neu drwy ofyn am gymorth gan y gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth.

### 3.14 Cwynion

Ymdrinnir ag unrhyw gŵyn a wneir yn Gymraeg gan glaf neu aelod o'r cyhoedd yn yr un modd, ac o fewn yr un terfynau amser ag unrhyw gŵyn a wneir yn Saesneg.

Ymdrinnir ag unrhyw gŵyn yn erbyn BIPCAF drwy broses ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg o fewn yr amserlenni penodedig, a chyfrifoldeb yr holl swyddogion perthnasol fydd darparu'r wybodaeth angenrheidiol ar y pryd, a gweithredu ar unrhyw gamau gweithredu ar ôl i benderfyniad gael ei wneud.

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

### 3.15 Gweithio mewn partneriaeth

Lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol, bydd BIPCAF yn gweithio gyda'i bartneriaid, yn lleol ac yn rhanbarthol, ar brosiectau ar y cyd sydd wedi'u cynllunio i gyflawni agweddau ar gyflenwi gwasanaethau Cymraeg. Gallai'r rhain gynnwys sesiynau hyfforddi staff, ymgyrchoedd hyrwyddo, dogfennau canllaw a materion tebyg eraill. Byddai partneriaid yn cynnwys aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg ochr yn ochr â sefydliadau partner yn Fforwm y Gymraeg y ddau awdurdod lleol.

### 3.16 Hyrwyddo'r Gymraeg

Bydd hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan weledol o hunaniaeth BIPCAF ac unrhyw wasanaeth a ddarparwn.

Bydd deunyddiau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ar gael yn y Gymraeg.

Os bydd BIPCAF yn hysbysebu gwasanaeth Saesneg lle mae gwasanaeth Cymraeg cyfatebol ar gael, yna fe fyddwn yn nodi ar y deunyddiau hysbysebu Saesneg fod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Bydd BIPCAF yn parhau i hyrwyddo digwyddiadau fel Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, Diwrnod Shwmae a Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ac ati.

### 3.17 Cadw cofnodion

Bydd BIPCAF yn cadw cofnod o'r canlynol:

Nifer y cwynion a dderbynnir ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r Safonau;

Nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg a hyd at ba lefel;

Nifer y swyddi newydd a gwag lle nodwyd bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi fel rhan o'r adroddiad blynyddol.

### 3.18 Adroddiadau Blynyddol

Rhif cyfeirnod:  
Rhif y Fersiwn  
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a  
Chyflenwi

Adolygiad Nesaf: 17 Mai 2025  
Dyddiad cyhoeddi 5 Awst 2022

Bydd BIPCAF yn llunio ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn unol â Safon 120 ein Hysbysiad Cydymffurfio - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru).

## 4. Adolygu a Monitro

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd, er y gall fod angen cynnal adolygiadau eraill os bydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth.

### 4.1 Cyfrifoldebau rheoli

Rhaid i reolwyr gymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu a'i fonitro'n effeithiol, a rhaid iddynt sicrhau bod pob aelod o'u staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau.

Bydd y polisi hwn yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Cydraddoldeb a'r Gymraeg a Gweithgor Safonau'r Gymraeg ar gyfer ymgynghoriad, a byddwn wedyn yn dilyn y llwybr arferol ar gyfer cymeradwyaeth, sef trwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg, monitro cydymffurfiaeth â'r polisi ac adolygu'r polisi.

Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol sy'n gyfrifol yn y pendraw am y Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd. Eir i'r afael â phob achos o ddiffyg cydymffurfiaeth yn unol â'r gweithdrefnau disgyblaeth a chânt eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg a'r Bwrdd Gweithredol.

### 4.2 Cadw/Archifo

Bydd y Cyfarwyddwr perthnasol yn sicrhau bod copïau o'r polisi hwn yn cael eu harchifo a'u storio yn unol â pholisi rheoli cofnodion BIPCAF, a bod copïau ar gael at ddibenion cyfeirio rhag ofn y bydd sefyllfa yn codi lle bydd eu hangen.

### 4.3 Diffyg cydymffurfio

Mae disgwyl i bob aelod o staff gydymffurfio â'r polisi hwn. Mae methiant i gydymffurfio â'r polisi hwn yn gamwedd difrifol a allai arwain at gamau disgyblu.